# 12fed Cylchlythyr Rheoleiddio Ein Dyfodol

Croeso i rifyn 12 o Gylchlythyr Rheoleiddio Ein Dyfodol. Yn y rhifyn hwn, rydym ni'n canolbwyntio ar y cynnydd yr ydym ni wedi'i wneud ar ein Strategaethau Arolygu Cenedlaethol (NIS), y camau nesaf ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth cofrestru digidol a'n digwyddiadau ymgysylltu diweddar ar Gyflenwi Safonau Bwyd.

Heather Hancock
Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

## Datblygu Strategaethau Arolygu Cenedlaethol

Mae'r gwaith ar NIS wedi bod yn datblygu'n dda dros y misoedd diwethaf. Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad y treialon canfod llwybrau drwy (dolen) ac ymgynghori ar y safonau drafft sy'n darparu rhywfaint o’r llywodraethu i'r maes gwaith hwn.

Mae'n gyfnod cyffrous i'r fenter hon, gyda phrif awdurdodau a'u busnesau bwyd partner yn cydweithio i ddatblygu NIS. Rydym ni'n adolygu'r cynigion fel y gallwn ni gymryd y camau nesaf i gyhoeddi dau NIS ar gyfer manwerthwyr aml-safle. Mae'r cynigion yn wahanol, a bydd hyn yn ein helpu i archwilio cryfderau'r gwahanol ddulliau. Y rhain fydd y Strategaethau cyntaf sy'n cwmpasu hylendid bwyd, felly byddwn ni'n edrych ar y rhain fel treialon estynedig/canfod llwybrau, fel y gallwn ni ddysgu beth sy'n gweithio'n dda a gwybod lle mae angen i ni wneud newidiadau.

Rydym ni'n gwybod bod cysylltiad clir rhwng NIS a gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). Mae'r cynigion sydd wedi dod i law yn ystyried y CSHB, ond mae angen i ni siarad â rhanddeiliaid i gytuno sut mae'r ddau beth yn cydweddu. Byddwn ni'n ymgysylltu i sicrhau bod NIS yn gweithio heb leihau hygrededd y CSHB.

## Cynnydd o ran y gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd digidol

Mae gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd digidol yr ASB, a aeth yn fyw ym mis Medi 2018, yn parhau i gysylltu awdurdodau lleol â'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn casglu data cofrestru gan weithredwyr busnesau bwyd ac fe fydd yn darparu canllawiau i gefnogi busnesau bwyd a'u helpu i ddeall eu cyfrifoldebau o ran cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Mae rhai awdurdodau lleol wrthi'n profi'r gwasanaeth ac rydym ni wedi cael adborth amhrisiadwy i lywio’r broses o ddatblygu a chyflenwi'r gwasanaeth yn y dyfodol.
Mae'r gwasanaeth wedi'i ddatblygu gan ystyried gweithredwyr busnesau bwyd a byddwn ni'n cynnal ymchwil i sicrhau ein bod ni'n parhau i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd un o'r awdurdodau lleol sydd wrthi'n treialu wedi rhoi gwybod am brofiad cadarnhaol gweithredwr busnes bwyd yn ei ardal, gan gadarnhau bod y ffurflen wedi bod yn llawer haws i'w llenwi na'r disgwyl.

Fel rhan o'n gwaith parhaus i 'brofi'r cysyniad', rydym ni wedi gwrando ar awdurdodau lleol a nodi bod angen dulliau mwy hyblyg iddynt gysylltu â'r gwasanaeth. Rydym ni wrthi'n archwilio sut y gallai hyn weithio'n ymarferol. Dros y misoedd nesaf, rydym ni'n bwriadu trafod â phartneriaid awdurdodau lleol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth newydd a rhoi'r cyfle iddyn nhw lywio ei ddatblygiad.

Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'u darparwyr gwybodaeth reoli i gefnogi'r broses gyflwyno, gan gydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth, canolfannau busnes a grwpiau newydd i hyrwyddo'r gwasanaeth newydd yn ehangach.

Rydym ni hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth newydd ymhlith cymuned ddigidol awdurdodau lleol. Esboniodd Julie Pierce, ein Cyfarwyddwr Bod yn Agored, Digidol a Data, beth yw uchelgeisiau'r ASB mewn perthynas â data mewn cyfweliad diweddar gydag Awdurdod y Deyrnas Unedig.

Mae'r ASB yn croesawu unrhyw awdurdod lleol sydd â diddordeb mewn ymuno. Dylid mynegi diddordeb drwy anfon e-bost at: Futuredelivery@food.gov.uk

## Digwyddiadau ymgysylltu ar Gyflenwi Safonau Bwyd

Fe wnaeth ein bwrdd drafod yr adolygiad safonau bwyd a chanfyddiadau arolwg awdurdodau lleol yn eu cyfarfod ar 5 Rhagfyr. Cytunodd y Bwrdd fod angen ailgynllunio cynhwysfawr, a fyddai'n rhoi gwell sicrwydd, mwy o ystwythder, ac yn helpu awdurdodau lleol i ddangos eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau statudol.

Er mwyn gwneud yn si?r bod y dull newydd o gyflenwi safonau bwyd yn cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol, cafodd y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen gyfle i fynegi eu barn ar sut i ddiwygio a gwella'r ddarpariaeth rheoleiddio bwyd. Rhwng 1 Chwefror ac 1 Mawrth 2019, cynhaliodd yr ASB 9 digwyddiad ymgysylltu ledled Cymru, Lloegr (ar sail rhanbarthol) a Gogledd Iwerddon. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ddylanwadu a datblygu dewisiadau i'w hystyried ar gyfer model cyflenwi'r dyfodol. Roedd y digwyddiadau yn boblogaidd, gyda 190 o swyddogion yn cymryd rhan. Cafwyd sgyrsiau bywiog gyda themâu cyffredin yn dod i'r amlwg. Bydd y mewnwelediadau'n cael eu casglu a'u rhannu gyda phawb a oedd yn bresennol drwy'r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu. Mae dogfen friffio fyw hefyd yn cael ei chreu i gasglu atebion i rai o'r cwestiynau a gododd.

Mae adborth o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o bobl yn gwerthfawrogi'r diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr ASB, a'r cyfle i roi eu barn a chyfrannu at y broses ddatblygu. Fe wnaeth llawer o gyfranogwyr fynegi awydd i gyfarfod eto, i archwilio atebion i rai o'r pryderon a godwyd, ac rydym ni'n bwriadu cynnal digwyddiad ymgysylltu arall ymhen 6 mis, neu'n gynharach os oes angen.